CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 23 Ionawr, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr D Hughes, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

130 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, Mrs J Peers.

131 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2016.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

132 CYNGOR SIR YNYS MÔN - MATERION AMRYWIOL

Cyflwynwyd er gwybodaeth - gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

133 CYNGOR SIR YNYS MÔN - GWAHARDDIAD TRAFFIG.

Cyflwynwyd - gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a oedd yn hysbysu gwaharddiad traffig parhaol ar y B5108 o Sgwâr Benllech i'r gyffordd a Stad Tyddyn Fadog. Gofynnwyd am sylwadau ar y mesur.

PENDERFYNWYD – cytuno gyda'r mesur arfaethedig yn unfrydol.

134 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

135 CYNGOR SIR YNYS MÔN - ARCHEBION CYNGHORAU CYMUNED / TREF 2017/18.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn yn hysbysu mai nifer tai Band D yn y Gymuned am 2017/18 yw 1778.79. Hefyd fod yr Adran Refeniw yn disgwyl dychwel yr Archeb berthnasol erbyn Dydd Mercher 15 Chwefror 2017.

136 LLYWODRAETH CYMRU – ADRAN 137 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru yn hysbysu gwariant o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 am y flwyddyn ariannol 2017/2018.

137 CYNGOR SIR YNYS MÔN - PANEL DEWIS Y PWYLLGOR SAFONAU.

Cyflwynwyd - cyswllt gan Gyngor Sir Ynys Môn yn hysbysu swydd wag achlysurol ar gyfer aelod annibynnol ar gael ar y Pwyllgor Safonau. Y Cyngor Sir yn gwahodd y Cyngor Cymuned i enwebu aelod i wasanaethu ar y Panel Dewis.

PENDERFYNWYD – i beidio enwebu.

138 UN LLAIS CYMRU - PWYLLGOR ARDAL YNYS MÔN.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn a gynhaliwyd ar y 6 o Hydref 2016 yn Neuadd y Sir Llangefni.

139 FFORWM CYSWLLT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24 o Dachwedd 2016 yn Siambr y Cyngor Sir, Llangefni.

140 UN LLAIS CYMRU – CYFLEOEDD HYFFORDDIANT.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Un Llais Cymru yn manylu cyrsiau hyfforddiant am 2017.

141 GRANTIAU A RHODDION

(a) Cyflwynwyd – cais am grant gan y canlynol :-

(i) Macmillan Cymorth Canser.

PENDERFYNWYD - ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol â gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

(1) grant o £100 i "Macmillan Cymorth Canser"

BILIAU A CHYFRIFON

142 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Arthur Griffith	Gwasanaeth Cyfieithu	£69-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Neuadd Goffa	Rhent 2016/2017	£210-00
Goronwy Owen MSC	Paratoi Dogfennau	£480-00
Scottish Power	Trydan y goeden Nadolig	£19-33

143 CYFRIFON.

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Rhagfyr 2016.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

144 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2016 i ddiwedd mis Rhagfyr 2016.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

145 CYNGOR SIR YNYS MÔN - PWYLLGOR SAFONAU.

Derbyniwyd llythyr gan Michael Wilson, Cadeirydd, Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn. Ynghlwm i'r llythyr roedd Nodyn Briffio ar y gofynion mewn perthynas â datgan a chofrestru diddordeb gan aelodau. Roedd y Nodyn Briffio yn gynwysedig ar y Rhaglen a darllenodd y Clerc y cynnwys i'r aelodau oedd yn bresennol a thrafodwyd rhai agweddau. Hefyd rhoddwyd copi o'r Nodyn Briffio i bob aelod ar ddiwedd trafod yr eitem. Yn ogystal anfonwyd copi o'r Nodyn Briffio i'r pedwar aelod oedd yn absennol o'r Cyfarfod.

146 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU.

Cafwyd e-bost ar ran Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys Canllaw a Nodyn Briffio i Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned parthed newidiadau Statudol i'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Rhoddwyd crynodeb o'r newidiadau sy'n codi o'r canllaw newydd i'r aelodau.

147 AMCANGYFRIFON 2017/2018.

Cyflwynwyd – amcangyfrifon y Cyngor yn rhoi manylion o incwm a thaliadau arfaethedig yn 2017/2018.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo'r amcangyfrifon gydag un newid i'r gwariant, sef, cynyddu'r swm ar gyfer cyflogau o £13,000 i £18,000 ar gyfer cyflogi gweithiwr tymhorol dros yr haf. Bydd y weithred yma yn galluogi'r Cyngor Cymuned i symud ymlaen gyda chynllun adfywio'r pentref ynghyd ac agor a chau Toiledau petai 'r trosglwyddiad asedau gan Gyngor Sir Ynys Môn yn digwydd.

148 CYNGOR SIR YNYS MÔN - ARCHEB 2017/2018.

Cyflwynwyd – adroddiad y Clerc ar anghenion cyllidol y Cyngor yn 2017/2018.

PENDERFYNWYD –

(1) codi archebiant o £54,983

(2) mai £95,991 fydd cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2017/2018 dan Adran 50 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

(dangosir copi o'r Amcangyfrifon a'r Archeb wedi eu newid i adlewyrchu'r cynnydd yn y gwariant, yn gynwysedig yn Rhaglen mis Chwefror).

149 SUSTEM TELEDU CYLCH CYFYNG I YSGOL GORONWY OWEN.

Trafodwyd y ddau gynnig parthed gwneud estyniad i rwydwaith y sustem teledu cylch cyfyng i gynnwys Ysgol Goronwy Owen. Roedd y cwmni "cctv services" yn cynnig dau opsiwn tebyg, yr unig wahaniaeth o sylwedd oedd cael derbynnydd delweddau o fewn yr Ysgol, neu ddefnyddio'r prif dderbynnydd yng Ngorsaf yr Heddlu. Buasai delweddau ar dderbynnydd yr Ysgol yn cael eu gweld gan staff yr Ysgol.

Er bod pris defnyddio derbynnydd yng ngorsaf yr Heddlu £4314 yn uwch penderfynwyd ar yr opsiwn yma gan y buasai angen Cod Ymarfer gwahanol petai ddelweddau yn cael ei gweld gan staff yr Ysgol. Buasai gweithredu dwy sustem yn cymhethlu rheolaeth yn ogystal.

150 STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2017/2018.

Cyflwynwyd – dogfen Strategaeth Buddsoddi drafft am 2017/2018 i'w chymeradwyo.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r ddogfen Strategaeth Fuddsoddi drafft fel ag yr oedd.

151 RHESTR GRANTIAU A RHODDION 2017/2018.

Cyflwynwyd – Atodlen yn dangos dyraniad arfaethedig arian grantiau am y flwyddyn 2017/2018.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo'r Atodlen gyda dau newid, sef, dileu Ysgol Feithrin Benllech gan ei bod wedi dirwyn i ben. Ychwanegu grant o £100 i Gynllun Tro Da, Benllech.

152 CLWB BOWLIO BENLLECH – Y CYRTIAU TENIS

Adroddodd y Clerc grynodeb o'i ymweliad a Phwyllgor o Glwb Bowlio Benllech i drafod ymhellach y posibilrwydd o osod wyneb bob tywydd ar y cyrtiau tennis. Siaradodd Cadeirydd y Clwb Bowlio am ymestyn y dewis o chwaraeon oedd ar gael i drigolion y pentref ac

yn arbennig felly ieuenctid y fro. Buasai gosod wyneb bob tywydd yn galluogi chwaraeon fel pêl fasged, pêl rwyd, tennis, hoci a phêl droed. Roedd y Clwb Bowlio wedi cael dau bris, y cyntaf gan gwmni "Readygrass" am £24,750 a TAW a'r ail gan "Gorgeous Grass Company" am £39,990 a TAW. Roedd yr ail bris yn cynnwys y wyneb ffug a'i osod, a llinellau chwaraeon amrywiol.

Mae'r Clwb Bowlio yn edrych am grantiau fel ffynhonnell i dalu am y prosiect ac awgrymwyd nifer o gyrff ac elusennau. Gofynnwyd a fuasai'r Cyngor Cymuned yn ystyried gwneud grant tuag at y gost ac eglurwyd y buasai'r mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor Cymuned.

PENDERFYNWYD - neilltuo £6,000 ar gyfer grant o fewn cyllideb 2017/2018 ac ystyried ychwaneg wrth sefydlu gwariant 2018/2019. Y tebygrwydd ydyw mai cais i Ymddiriedolaeth Ynys Môn a "Sport Wales" a wneir i gael mwyafrif yr arian grantiau angenrheidiol.

153 LLYFRGELL BENLLECH.

Cafwyd cyflwyniad gan Bethan Fraser Williams o Fenter Môn ar y prosiect i drosglwyddo Llyfrgelloedd y Sir i'w rheoli gan gymunedau lleol, wedi ei chwblhau gan Martin Price Associates. Eglurwyd fod Llyfrgell Benllech yn sefyll yn yr ail ddosbarth gyda chyfle i'r gymuned greu grŵp i'w rhedeg gyda chymorth Llyfrgellydd cymwys am nifer o oriau yn wythnosol gyda gwirfoddolwyr. Roedd bwriad i drosglwyddo ym mis Hydref 2017 ond fod posib i hyn newid o ganlyniad i'r Etholiad ym mis Mai 2017.

154 TIR AR FFORDD AMLWCH - CAER BERLLAN.

Trafodwyd termau Les newydd i faes chwarae caer berllan yn dilyn llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn fod y Les flaenorol wedi terfynu ym mis Mawrth 2016. Roedd copi o'r hen Les wedi ei ddosbarthu i bob aelod gyda'r Rhaglen.

PENDERFYNWYD - i dderbyn cynnig Adran Eiddo, Cyngor Sir Ynys Môn a oedd fel a ganlyn :-

Cyfnod o ugain mlynedd, rhent blynyddol o £115 a TAW, Tenant i fod yn gyfrifol am gostau cyfreithiol y ddwy ochr. Y termau eraill fel y Les flaenorol.

CYNLLUNIO

155 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatáu :

30C335C	Porthllongdy Caravan Park, Traeth Coch / Red Wharf Bay

156 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

157 DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR DIR GER A GYFERBYN CLWB GOLFF STORWS WEN.

Derbyniwyd hysbyseb gan gwmni Cadnant Planning o dan y "Localism Act 2011" fod Mr Andrew Cartwright yn bwriadu gwneud cais cynllunio i adeiladu 36 o fythynnod gwyliau gyda pharcio a thirlunio cysylltiedig. Mae dyletswydd o dan y Ddeddf uchod ar y datblygwr i ymgynghori a'r gymuned leol cyn gwneud cais cynllunio am ddatblygiadau mawr.

PENDERFYNWYD - i drefnu Cyfarfod Cyhoeddus cyn gynted â phosib fel bod y Cyngor Cymuned a thrigolion Brynteg yn cael cyfle i ddysgu mwy am y Datblygiad hwn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-30 yr hwyr.